

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	20 Ebrill 2023
Teitl:	Enwebu Ymddiriedolwr i'r elusen a elwir yn Parc Coffa Llandysul
Pwrpas yr adroddiad:	Cadarnhau penodiad cynrychiolydd ymddiriedolwyr Cyngor Sir Ceredigion i'r Pwyllgor Rheoli
Er:	Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

1. CEFNDIR

Ar y 10fed Ionawr 1997, gwnaeth y Comisiwn Elusennau gynllun mewn perthynas â'r elusen a elwir yn Barc Coffa Llandysul, y mae copi ohono wedi'i atodi yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

Amcan yr elusen yw darparu gwaith cynnal a chadw tir hamdden er budd trigolion Trefgordd Llandysul (fel y'i cyfansoddwyd yn 1930) a'i chymdogaeth heb wahaniaethu o ran barn wleidyddol, grefyddol neu arall, gyda'r amcan o wella amodau bywyd y trigolion o nodwyd.

Mae'r Cynllun yn nodi mai Cyngor Sir Ceredigion yw Ymddiriedolwr cadw yr elusen. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn dal y tir mewn ymddiriedaeth ar gyfer yr elusen yn unig, nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau gweinyddu na rheoli mewn perthynas â'r elusen.

Mae'r Cynllun yn gosod allan Pwyllgor Rheoli sy'n ymddiriedolwyr rheoli'r elusen ac sydd felly'n delio gyda gweinyddu a rheoli'r elusen o ddydd i ddydd.

Mae gofyn bod 12 aelod o'r Pwyllgor Rheoli sef:

- a) 2 aelod a etholwyd yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Pwyllgor;
- b) 10 aelod o gynrychiolwyr, gyda Chyngor Cymuned Llandysul yn penodi tri ohonynt ac un aelod cynrychiadol a benodwyd o bob un o'r sefydliadau canlynol:

Cyngor Sir Ceredigion
Sefydliad y Merched, Cangen Llandysul
Merched y Wawr, Cangen Llandysul
Merched Glannau Teifi, Cangen Llandysul
Cymdeithas Chwaraeon Llandysul
Cylch Cinio, Llandysul
Y Lleng Brydeinig Frenhinol, Cangen Llandysul

2. CAMAU NESAF

Tra bod y Cynghorydd Keith Evans fel Aelod Lleol Llandysul wedi bod yn mynychu'r Pwyllgor Cyfarfodydd Rheoli, nid yw'r Swyddogion wedi gallu dod o hyd i benderfyniad i benodi aelod yn ffurfiol i gynrychioli Cyngor Sir Ceredigion felly mae angen i'r Cyngor wneud hynny wrth symud ymlaen i ffurfioli'r gynrychiolaeth a chwrdd â gofynion y Cynllun. Bydd yr aelod sydd wedi'i enwebu yn cael ei benodi'n ymddiriedolwr am weddill y flwyddyn bresennol ac i'w ailbenodi am y blynyddoedd dilynol o fewn tymor gweinyddu'r Cyngor presennol (h.y. tan fis Mai 2027).

Er bod gan y Cyngor Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau sefydledig eisoes, dim ond gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag elusennau y mae'r Cyngor ei hun yn unig Ymddiriedolwr y gall wneud ac felly nid yw'r elusen hon yn dod o fewn y cylch gwaith hwnnw.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn elwa o'r indemniad cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor i Aelodau a Swyddogion, ar yr amod eu bod yn gweithredu'n onest, o fewn eu pwerau ac un yr elusen, ac mewn ffydd dda.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os, ddim, nodwch pam Crynodeb: Hirdymor:	Ddim yn ofynnol
Lles cenedlaethau'r dyfodol:	Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddiad:	I sicrhau penodiad priodol Ymddiriedolwr ar ran Cyngor Sir Ceredigion i elusen Parc Coffa Llandysul To gydweithio gyda chynrychiolwyr eraill er mwyn sicrhau bod yr ardal yn ei chyfanrwydd yn cael ei chynrychioli Mynd i gyfarfodydd a chyfrannu at benderfyniadau yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau Dim Gweithio gydag eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion
Argymhelliad(au):	I'r Cyngor enwebu Ymddiriedolwr i fod ar Bwyllgor Rheolaeth Parc Coffa Llandysul fel cynrychiolydd Cyngor Sir Ceredigion.	
Rhesymau dros benderfyniad:	Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth priodol yn unol â gofynion Cynllun Comisiwn Elusennau elusen Parc Coffa Llandysul dyddiedig 10/01/1997.	
Trosolwg a Chraffu:	AMH	
Fframwaith Polisi:	AMH	

Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Yn cyfrannu at y blaenoriaethau Corfforaethol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu o bob oedran
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(au):	Dim
Pwerau Statudol:	AMH
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1 – Cynllun 10/01/1997
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu
Swyddog Adrodd:	Louise Harries
Dyddiad:	29/03/2023